Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Ionawr 25ain 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins
Dirprwy Faer Hugh Towns
Cyng Charlotte Leadbeater
Cyng Richard Wallace
Cyng Ros Bellamy
Cyng Pam Steane Price
Cyng Roy Davies
Cyng Fran Murphy
Cllr Ieuan Gwyn
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Yn bresennol : Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Ymddiheuriadau: Cyng Paul Faulkner .

Daeth Mr Ian Jones, Pennaeth Dros Dro Hamdden a Chwaraeon Cyngor Sir Caerfyrddin i annerch y Cyngor ar gais y Maer. Esboniodd y ffeithiau ynghylch darparu Pwll Nofio Cyhoeddus yn Ysgol Tre-gib. Mae'r oedi wedi'i achosi oherwydd eu bod wedi gorfod ymgynghori gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn arbennig, ynghyd â'r rheoliadau newydd sy'n cael eu gorfodi gan Asiantaeth yr Amgylchedd gan olygu bod y costau wedi mwy na dyblu. Cynhelir cyfarfodydd Misol y Grŵp Prosiect o dan Gadeiryddiaeth yr Ysgol, Mrs Griffiths. Wnaeth Mr Jones addewid i ddweud wrth y Cyngor am unrhyw ddatblygiadau. Diolchodd y Maer iddo am ei adroddiad cynhwysfawr.

Materion yr Heddlu : Rhoddodd y Maer adroddiad llafar ar ran y Rhingyll Neil Jones. Bydd yr Arolygydd Ward yn mynychu cyfarfod cynllunio mis Mawrth er mwyn adrodd ar gynnydd y Polisi Plismona Cymunedol.

6686 / Ionawr / 06 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd a llofnodwyd Cofnodion o'r cyfarfod llawn a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, 14eg Rhagfyr, 2005 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar Ionawr 11eg, 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Ionawr 11eg, 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6687 / Ionawr / 06 Materion yn codi o gyfarfodydd Blaenorol

Cyf : 6683 b – hysbyswyd gan HSBC nad oeddynt yn gallu derbyn galwadau ffôn er mwyn awdurdodi trosglwyddiadau banc ond fe fyddant yn derbyn Mr Plummer yn cyflwyno llythyr gyda dau lofnod yn rhoi awdurdod y Cyngor.

6688 / Ionawr / 06 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu.

a) Taliad fesul cam i Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cambria am waith ar y Cynllun Treftadaeth, anfoneb am 80% o'r gost £19308.00
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy
Pawb o blaid.

b) "Dyfed Tree Care" mewn perthynas â gwaith yn Alotment Heol Cilgant £260.00
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns.
Pawb o blaid.

c) Mr Des Davies, mewn perthynas â Chwrs cyfrifiaduron TG £ 46.00
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn
Pawb o blaid.

2. Atgyweirio Simnai Neuadd y Sir. Adroddodd y Swyddog Technegol ei fod wedi derbyn dyfynbris o £450 er mwyn codi sgaffaldau er mwyn caniatáu gwneud archwiliad o'r simnai. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai'r gost o archwilio'r simnai tua £200 ac yn cynnwys adroddiad. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylid derbyn hyn ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Pawb o blaid.

3. Llwybr Troed Glynceirch. Argymhellwyd gan y Swyddog Technegol gan fod y gwaith atgyweirio angenrheidiol yn golygu defnyddio peiriannau trwm, y dylid gadael y gwaith tan fis Ebrill, er mwyn achosi cyn lleied â phosib o ddifrod i dir y ffermwr. Wrth gynnig derbyn hyn, wnaeth y Cyng Hugh Towns hefyd gynnig y dylid trosglwyddo'r gyllideb ar gyfer llwybrau troed ymlaen at y flwyddyn ariannol nesaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.

6689 / Ionawr / 06 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer, Cyng Colin Jenkins adroddiad o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau wnaeth eu mynychu ar ran y Cyngor yn ystod y mis.

6690 / Ionawr / 06 Prosiect Llwybr Treftadaeth y Dref

Adroddodd y Cyng Ros Bellamy fod y gweithgor wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda Cambria a'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones. Roedd Cambria yn hapus i weithio gyda chynnwys a themâu'r placiau. Dangoswyd enghraifft o un o'r placiau yn y cyfarfod.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6691 / Ionawr / 06 Prosiect yr Ardd

Diolchodd y Maer i'r Cynghorwyr a'r bobl hynny wnaeth helpu i glirio'r Alotment dros gyfnod y Nadolig. Cyflwynodd y Cyng Pam Steane Price adroddiad cynhwysfawr o'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn. Mae rhyw 200 o oriau wedi'u gwneud gan wirfoddolwyr. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch i Mr Ken Murphy am wneud arolwg llawn ar yr allotment i'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc ffeilio pob adroddiad. Bydd y diwrnod gwirfoddoli nesaf ar ddydd Sadwrn Chwefror 4ydd, am 9.30am. Cynigiwyd gan y Cyng Steane Price y dylai'r Cyngor ymuno gyda Ffederasiwn Ffermydd a Gerddi trefol. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Pawb o blaid.

6692 / Ionawr / 06 Gwefan

Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylai'r Cyngor dalu am ffi trwydded am y tri mis nesaf ar gyfer y wefan ar gost o £5. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Pawb o blaid.

6693 / Ionawr / 06 Dirprwyo Pwerau i Bwyllgorau

Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau a'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu. Bydd is-bwyllgor yn cynnwys Cyng Towns, Cyng Ieuan Gwyn a Cyng Richard Wallace yn cynnal yr arolwg ac adrodd yn ôl erbyn diwedd Mai 2006. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins. Pawb o blaid.

6694 / Ionawr / 06 – Gohebiaeth

1. Llythyr oddi wrth Mr DA Jones. – Gofynnwyd i'r Clerc ateb yn ymddiheuro am fethu â'i hysbysu am weithredoedd y Cyngor yn dilyn llythyr blaenorol.
   Ailadroddwyd y dylid anfon llythyr cydnabod safonol at bawb sy'n anfon.
2. LlCC – Caniatâd Benthyca ar gyfer 2006-7. Bydd y Cyng Hugh Towns yn ystyried ac yn ateb erbyn Mawrth 10fed.

6695 / Ionawr / 06 – Materion nad oes angen penderfyniad

- Rhybudd o raglen deledu gan HTV ar hanes y Dref i'w dangos ar ddydd Sul Chwefror 5ed am 6pm.
- Cynhelir taith y Maer, a ganslwyd ar Ionawr 1af ddydd Sul Chwefror 5ed am 11am gan gychwyn o'r orsaf Reilffordd.
- Rhoddodd y Swyddog Technegol ei adroddiadau ar Lwybrau Troed a Goleuadau Nadolig. Bydd yr adroddiad ar Lwybrau Troed yn eitem agenda ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.
- Cynhelir cyfarfod nesaf o'r is-bwyllgor tân gwyllt ar Fawrth 2il.
- Bydd holl gyfarfodydd o'r Cyngor Llawn o hyn ymlaen yn cael eu cynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Sir, Heol Cilgant, oni bai y nodir yn wahanol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 p.m.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk